



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

**Digidol yn Gyntaf**



# Digidol yn Gyntaf

## Rhoi pobl wrth galon datblygu a chynllunio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

### Rhagair

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau pwysig ar gyfer pobl a busnesau Cymru, o ofal iechyd ac addysg i ofalu am ein ffyrdd a helpu entrepreneuriaid i gychwyn eu busnesau eu hunain.

Mae'n rhaid i'r gwasanaethau a ddatblygwn ymateb i anghenion newidiol pobl Cymru. Wrth i'r gymdeithas esblygu, mae pobl yn mabwysiadu ac yn defnyddio technolegau newydd a rhai sy'n datblygu. Mae hyn yn dylanwadu ar sut rydym yn ymwneud â'n gilydd ac â'n gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyfrifoldeb i sicrhau bod y gwasanaethau y mae'n eu darparu, a'r dulliau o gynnig y gwasanaethau hynny, yn ymateb i esblygiad cymdeithas ac yn aros yn berthnasol.

Bydd manteisio'n llawn ar y cyfleoedd y mae technoleg yn eu cynnig yn ein helpu i ddarparu'r gwasanaethau y mae gan ddefnyddwyr ddi-ddordeb ynddynt. Mae hefyd yn gallu sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn cael eu darparu yn fwy effeithlon a chost-effeithiol.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ein bwriad i arwain a gweithredu ym mhob agwedd ar ddatblygu a chynllunio gwasanaethau digidol.

Wrth ddarparu gwasanaethau, mae'n rhaid i ni gofio nad yw pobl yn gwybod yn aml ai Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol neu yn wir Llywodraeth y DU sy'n darparu'r gwasanaeth. Felly, wrth roi'r

strategaeth hon ar waith, bydd angen cydweithio'n agos â phob un o'r rhanddeiliaid hyn er mwyn sicrhau profiad cyson i'r defnyddiwr.

Rydym yn sylweddoli bod llawer o rwystrau i gyrchu gwasanaethau ar-lein, yn enwedig i'r rhai ar incwm isel, pobl anabl a phobl hŷn. Drwy wella ansawdd y gwasanaethau digidol sydd ar gael a thrwy sicrhau bod cymorth wrth wraidd ein gwaith cynllunio gwasanaethau, gallwn annog a galluogi mwy o bobl i ddefnyddio ein gwasanaethau digidol.

Drwy ein rhaglen Cyflymu Cymru rydym eisoes yn buddsoddi yn y seilwaith i helpu i ddarparu gwasanaethau digidol. Mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r buddsoddiad hwn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon fyd-eang. Bydd y buddsoddiad hwn yn darparu opsiynau cysylltedd newydd ar gyfer sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus drwy Brosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus, a bydd yn golygu bod y sefydliadau sector cyhoeddus hynny yn gallu canolbwyntio ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn hytrach na'r bylchau yn y seilwaith.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu camau cyntaf Llywodraeth Cymru tuag at greu'r amgylchedd sydd ei angen i alluogi a grymuso'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau ar-lein rhagorol i bobl a busnesau Cymru.

**Julie James AC**  
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Technoleg

## Ein Gweledigaeth Ddigidol

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Digidol yn Gyntaf yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus ymatebol, cyson a rhagorol ar gael drwy drawsnewid y ddarpariaeth ddigidol.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae'n rhaid mynd i'r afael â'r rhwystrau sylfaenol sy'n atal y sector cyhoeddus ar hyn o bryd, yn ogystal â gweithio mewn ffordd gydgyssylltiedig ym mhob rhan o'r sector.

## Ein strategaeth

Byddwn yn cydnabod ac yn datblygu gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo i weddnewid darpariaeth gwasanaethau. Byddwn yn nodi ac yn mabwysiadu arferion gorau yng Nghymru, y DU a ledled y byd.

Byddwn yn sicrhau bod pob gwasanaeth digidol yng Nghymru o'r safon uchaf, gan ddefnyddio platfformau cyffredin ac aildefnyddio buddsoddiadau presennol.

Byddwn yn mabwysiadu dull gweithredu digidol yn bennaf wrth ddarparu gwasanaethau Llywodraeth Cymru, gan roi cymorth priodol i ddefnyddwyr nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau digidol.

Byddwn yn ceisio nodi prosiectau cam cyflym ymlaen sy'n gallu gwella gwasanaethau yn sylweddol a datgloi arbedion effeithlonrwydd er mwyn dangos y potensial a chyllido dulliau gweddnewid gwasanaethau mwy heriol.

Byddwn yn ceisio datblygu'r seilwaith gofynnol i gefnogi darpariaeth gwasanaethau digidol. Gwasanaeth rhwydwaith Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus fydd y llwybr diodyn i

gyrchu gwasanaethau rhwydwaith ardal eang yng Nghymru. Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn defnyddio enwau'r parthau newydd .cymru a .wales fel enwau diodyn.

Byddwn yn darparu'r arweiniad sydd ei angen i weddnewid darpariaeth gwasanaethau ledled Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach.

Byddwn yn sicrhau bod gan sefydliadau sector cyhoeddus y sgiliau i ddefnyddio technolegau digidol a darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl Cymru. Bydd hyn yn cefnogi dull gweithredu digidol wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau newydd dros amser.

Byddwn yn datblygu ymwybyddiaeth ledled y sefydliad o effaith digidol ar ddarpariaeth gwasanaethau, gan ddatblygu polisiau a chynllunio gwasanaethau sy'n ystyried hyn.

Byddwn yn darparu mynediad i adnoddau dwyieithog yn y gweithle ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg i gefnogi pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau digidol.

Byddwn yn canolbwyntio ar Ddigidol yn Gyntaf wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau, ac yn datblygu gwasanaethau presennol yn ofalus ac yn bwyllog mewn ymateb i ofynion defnyddwyr y gwasanaethau hynny sy'n esblygu.

Byddwn yn mabwysiadu arferion gorau sy'n datblygu yng Nghymru, y DU a thramor, gan roi'r arferion gorau hyn ar waith yn genedlaethol ac yn lleol.

Drwy weithredu fel hyn byddwn yn datblygu'r llwyddiant a gafwyd hyd yma, yn dysgu gwersi o brosiectau sydd wedi methu, yn cydweithio ag eraill, yn

datblygu gwasanaethau mewn ffordd gydgyssylltiedig, yn caffael mewn ffordd strategol, yn osgoi dyblygu gwaith, yn datblygu/mabwysiadu platfformau cyffredin, yn sefydlu manteision cymunedol ac yn edrych yn eang er mwyn gwreiddio ein harloesedd a'n huchelgais.

## Pam mynd yn ddigidol?

Mae gweddnewid digidol yn rhan ganolog o gynlluniau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn fwy ystyrlon i'w defnyddwyr. Ein prif flaenoriaeth yw diwallu anghenion ein cwsmeriaid.

Yn ôl gwaith ymchwil<sup>1</sup>, mae 79% o oedolion (18 a throsodd) yng Nghymru yn defnyddio'r rhyngwrwyd. Roedd 83% o'r rhai sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd wedi defnyddio gwefannau'r llywodraeth neu wefannau gwasanaethau cyhoeddus eraill dros y 12 mis diwethaf.

Fodd bynnag, nid yw darparu ein gwasanaethau ar ffurf ddigidol yn ddigon. Mae'n rhaid iddynt weithio'n dda gyda'i gilydd a darparu profiad o ansawdd uchel sy'n ei gwneud yn haws i bobl ymdrin â'r sector cyhoeddus. Mae modd defnyddio a chyfuno gwybodaeth am berfformiad a mathau eraill o wybodaeth ar ffurf ddigidol er mwyn gwella darpariaeth a chael effaith gyflymach a mwy gwybodus nag a fyddai'n bosibl fel arall.

Gall technoleg ddigidol fod yn fanteisiol i'r gymdeithas. Gall hefyd arwain at arbedion sylweddol drwy symleiddio prosesau busnes a lleihau gorbenion. Mae Adroddiad ar Effeithlonrwydd Digidol Swyddfa'r Cabinet yn awgrymu bod trafodion ar-lein 20 gwaith yn rhatach na thrafodion ffôn, 30 gwaith yn rhatach na

thrafodion post a chymaint â 50 gwaith yn rhatach na thrafodion wyneb yn wyneb.

Mae Llywodraeth y DU yn symud gwasanaethau cenedlaethol ar-lein yn gyflym er mwyn mynd 'yn ddigidol yn ddiodyfn'. Yr amcan yw safoni'r gwaith o gynllunio gwasanaethau ar-lein, gan sicrhau eu bod mor hawdd i'w canfod a'u defnyddio fel na fydd cwsmeriaid eisiau defnyddio unrhyw ddull arall. Mae tystiolaeth o wasanaethau newydd fel gwasanaeth trethu ceir ar-lein y DVLA yn dangos mai dyma'r math o wasanaethau cyhoeddus y mae cwsmeriaid eu heisiau – ar gael unrhyw bryd ac o unrhyw le.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf mai'r prif ysgogiad ar gyfer gweddnewid digidol yw ceisio sicrhau rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau er budd pobl a'r gymdeithas. Y perygl cynhenid wrth ddilyn agenda ar gyfer newid sy'n seiliedig ar awydd i wneud arbedion refeniw yn unig yw'r ffaith y bydd diben y gwasanaeth ac anghenion defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu gwthio i'r cyrion a'u hanghofio wrth geisio gwneud arbedion.

Gall adnoddau a dulliau digidol helpu i wella sut rydym yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid a sut rydym yn gwrandao arnynt. Drwy gynyddu'r defnydd o adnoddau digidol gallwn wella sgiliau ac effeithlonrwydd ein staff a gwneud y broses o lunio polisïau a chynllunio a darparu ein gwasanaethau yn fwy agored. Byddwn yn creu diwylliant a dull gwaith sy'n golygu ein bod yn meddwl yn nhermau digidol, waeth beth rydym yn ei wneud.

Yn y pen draw, dylai defnyddio gwasanaethau digidol fod yn gysylltiedig â defnyddio technoleg i wneud pethau'n haws ac yn fwy cyfleus – i'n cwsmeriaid (busnesau a dinasyddion), ein rhanddeiliaid, ein staff, ein partneriaid darpariaeth a'n cyflenwyr.

---

<sup>1</sup> Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013-14, Defnydd o'r Rhyngwrwyd

Yn y rhan fwyaf o feysydd darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, mae mwy a mwy o gwsmeriaid yn disgwyl bod gwasanaethau ar gael ar-lein unrhyw bryd, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a thrwy ddefnyddio unrhyw ddyfais.

## Adeiladu ar lwyddiant

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn datblygu ac yn addasu yn gyson er mwyn diwallu anghenion y bobl a'r busnesau y mae'n eu gwasanaethu. Mae technoleg ddigidol o bob math yn dod yn rhan bwysicach o'r ddarpariaeth. Mae'r gwaith hwn wedi pwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar anghenion y defnyddiwr yn hytrach na'r dechnoleg sy'n sylfaen i'r gwasanaeth.

**Iechyd** – Gwasanaeth diogel GIG Cymru sy'n galluogi cleifion i wneud apwyntiadau ac archebu presgripsiynau amlroddadwy ar-lein yw Fy Iechyd Ar-lein. Mae ar gael mewn 89% o feddygfeydd yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae defnyddwyr yn gwneud cyfraniad allweddol at lunio darpariaeth gwasanaeth fel hwn. Mae datblygiadau arfaethedig yn cynnwys darparu mynediad drwy ddyfeisiau symudol fel ffôn clyfar neu lechen, ac ychwanegu swyddogaethau e-bost ac SMS er mwyn ymateb i adborth ei bod yn well gan ddefnyddwyr gyrchu'r gwasanaeth o le bynnag y maen nhw ar y pryd.

**Gofal cymdeithasol** – Ateb gwybodaeth integredig, sengl yw'r System Wybodaeth Gofal Cymunedol (CCIS), a bydd ar gael cyn bo hir i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Bydd CCIS yn galluogi sefydliadau i sicrhau bod gwasanaethau a chymorth yn cael eu cynllunio, eu cydgysylltu a'u darparu yn effeithiol i unigolion,

teuluoedd a chymunedau ar draws ffiniau sefydliadau.

**Ffermio** – Gwasanaeth ar-lein yw Taliadau Gwledig Cymru (TGC Ar-lein), ac fe'i datblygwyd drwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid, gan gynnwys ffermwyr, asiantwyr ffermio ac undebau'r ffermwyr er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion cwsmeriaid. Ffurflen y Cais Sengl 2014 oedd y cais cyntaf a oedd ar gael ar-lein. Cyflwynwyd bron i draean o'r ceisiadau, dros 5,000, ar-lein.

Treialwyd rhaglen cymorth digidol yn ystod cyfnod ceisiadau Glastir Organig a Glastir Uwch ym mis Hydref 2014 er mwyn helpu'r rhai a oedd angen cymorth ychwanegol neu'r rhai a oedd yn methu cyrchu gwasanaethau ar-lein. Roedd y cymorth digidol yn cynnwys cymorth un i un a oedd ar gael mewn rhai swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Diolch i Gymorth Digidol, cyflwynwyd bron i 100% (1,614 allan o gyfanswm o 1,618) o'r ceisiadau Glastir ar ffurf ddigidol. Bydd rhaglen Cymorth Digidol debyg ar gael ar gyfer Ffurflen y Cais Sengl 2015, yn ogystal â phob cynllun newydd sy'n cael ei ddarparu ar gyfer Glastir, fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf.

**Yr Amgylchedd** – roedd Llywodraeth Cymru yn un o'r partneriaid a lansiodd 'edoc' ym mis Ionawr 2014, sef system ar-lein newydd sy'n ceisio helpu i weddnewid y broses o gofnodi beth sy'n digwydd i'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu neu ei drafod gan fusnesau neu sefydliadau. Mae'n cael gwared â nodiadau papur hen ffasiwn yn ymwneud â throsglwyddo gwastraff, ac yn arbed amser, ymdrech ac arian i fusnesau a sefydliadau wrth gyflawni eu dyletswydd gofal gyfreithiol ar gyfer gwastraff.

Mewn meysydd eraill, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cyflwyno system ar-lein ar gyfer cofrestriadau haenen is. Arweiniodd yr arolwg

annibynnol o ymateb cwsmeriaid i'r system newydd at ganlyniadau cadarnhaol. Bydd CNC yn parhau i weithio gyda chwsmeriaid i wella'r gwasanaeth a chyfleusterau cofrestru ar-lein eraill.

**Cymunedau** – Fel rhan o'n gwaith cynhwysiant digidol, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, lle bo hynny'n briodol, er mwyn helpu unigolion i ennill y sgiliau digidol sylfaenol sydd eu hangen i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus digidol hanfodol. Yn aml, mae hyn yn arwain at gyfle i helpu unigolion i ddatblygu eu sgiliau digidol sylfaenol drwy gyflwyno manteision ychwanegol y rhyngwyd. Bydd rhaglen i olynu'r fenter chwe blynedd Cymunedau 2.0 ar waith o 1 Ebrill 2015 ymlaen. Bydd hyn yn helpu i gydgyfylltu gweithgareddau cynhwysiant digidol er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fanteisio ar y byd digidol.

**Addysg** – Mae nifer o wasanaethau digidol yn cael eu datblygu i gefnogi dysgu a datblygu sgiliau. Mae 'Fy Ysgol Leol' yn wasanaeth digidol sy'n darparu mynediad i ddata ysgolion ar gyfer rhieni ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn eu hysgol leol. Mae'r gwasanaeth yn darparu un pwynt cyswllt ar gyfer cyfoeth o ddata, yn amrywio o ddata ar berfformiad i wybodaeth am staffio a chyllid, mewn fformat hygyrch.

Ystorfa Cynnwys Digidol Genedlaethol yw Hwb, ac mae'n cynnal casgliad o adnoddau digidol i gefnogi dysgu ac addysgu ar gyfer dysgwyr 3-19 oed yng Nghymru. Mae gwasanaeth Hwb yn sicrhau bod ysgolion yn gallu cyrchu'r dechnoleg ddiweddaraf i helpu i weddnewid arferion ystafell ddosbarth. Mae Hwb+ yn integreiddio adnoddau a chynnwys darparwyr trydydd parti ac yn darparu gwefan ar gyfer y cyhoedd i bob ysgol yng Nghymru er mwyn

gweddnewid arferion ystafell ddosbarth ymhellach.

Mae Dysgu Cymru yn wasanaeth digidol sy'n ceisio diwallu anghenion addysgwyr ac ymarferwyr yng Nghymru.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru wedi sefydlu gwasanaeth digidol fel bod myfyrwyr addysg bellach ac addysg uwch yn gallu deall pa gymorth ariannol sydd ar gael. Gwasanaeth digidol sy'n darparu un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth am yrfaeodd, swyddi a hyfforddiant yw Gyrfa Cymru. Gall unigolion a busnesau ddod o hyd i amrywiaeth o wybodaeth a chyngor ymarferol i gefnogi unigolion sy'n chwilio am gyfleoedd gyrfa a hyfforddiant. Mae hefyd yn cynnig adnoddau a gweithgareddau rhyngweithiol i helpu pobl i baratoi ac ymgeisio am hyfforddiant a swyddi.

**Twristiaeth** – Mae'r Rhaglen Fframwaith Busnes Twristiaeth Ddigidol a ariennir gan yr UE wedi cael ei chydabod am ei defnydd arloesol o dechnolegau i wella cystadleurwydd twristiaeth. Mae wedi cefnogi prosiect dehongli technoleg ddigidol uchelgeisiol ac eang ym Mhlas Llanelly – atyniad canol dref hanesyddol ar gyfer ymwelwyr. Mae'r prosiect yn dod â hanes y plas yn fyw er mwyn darparu profiad sy'n cyd-fynd â disgwyliaidau cynyddol ymwelwyr.

Mae Cadw, gwasanaeth yr amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, wedi defnyddio technoleg ddigidol er mwyn gwella profiad ymwelwyr yng Nghaer a Baddonau Rhufeinig Caerllion, drwy ddefnyddio tafluniadau digidol i ail-greu dŵr a nofwyr yn y baddonau. Mae'r dechnoleg yn galluogi dehongli atmosfferig heb effeithio ar yr henebion hanesyddol. Mae'n golygu bod modd cyflwyno dehongliad diddorol i gynulleidfa eang. Mae profiad y Ffwrnais yng Ngwaith Haearn Blaenafon yn cyfuno taflunio digidol, golau LED, peiriannau mwg, a sain er mwyn creu

delwedd o'r broses o wneud haearn yn yr 19eg ganrif.

Mae'r enghreifftiau hyn yn datblygu diolch i ymdrechion nifer o sefydliadau ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'n rhaid i ni ddatblygu'r llwyddiant hwn a chynyddu'r momentwm.

## Cydnabod yr angen am newid sylweddol

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth hirdymor (Cymru Ddigidol) i geisio gwneud Cymru yn genedl gwirioneddol ddigidol. Cyflwynodd bum amcan allweddol: trechu'r bwch digidol; gwella sgiliau digidol; datblygu ein heconomi ddigidol; darparu band eang cyflymach ledled Cymru a darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus ar-lein. Mae cyflwyno Cymru Ddigidol yn un o ymrwymadau lefel uchel y Rhaglen Lywodraethu bresennol.

Mae cynnydd yn erbyn y pedwar amcan cyntaf wedi bod yn sylweddol, ond mae cynnydd yn erbyn y pumed amcan (gwell gwasanaethau cyhoeddus ar-lein) yn amrywio yn sylweddol, yn ôl sefydliad a gwasanaeth. Byddai'r rhan fwyaf o randdeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach yn ystyried ymrwymiad i newid hyn yn unol â'r hyn a nodir yn y strategaeth Digidol yn Gyntaf fel darn coll y rhaglen Cymru Ddigidol.

Er bod llawer o sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru wedi mabwysiadu darpariaeth gwasanaethau digidol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion cymhleth os yw Cymru am arwain y ffordd go iawn ym maes darparu gwasanaethau ar-lein. Mae'r materion hyn yn cynnwys yr angen am gyfeiriad clir, mynediad gwell i sgiliau digidol uwchraddol, ymrwymiad i gydweithio, defnyddio safonau cyffredin

ar draws sefydliadau a chwblhau'r broses gaffael mewn ffordd strategol.

Nododd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus nad yw defnydd y gwasanaethau cyhoeddus o wybodaeth a thechnoleg yn ddigon da i fodloni disgwyliadau'r cyhoedd neu anghenion y sefydliadau perthnasol.

Roedd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth a rhaglen genedlaethol gydlynol ledled y sector cyhoeddus er mwyn cynllunio, blaenoriaethu, a darparu gwasanaethau cydgysylltiedig wedi'u gweddnewid yn ddigidol sy'n sicrhau canlyniadau gwell a gwasanaethau mwy effeithlon ledled y sector cyhoeddus ar gyfer dinasyddion Cymru.

Nid strategaeth dechnegol mo Digidol yn Gyntaf. Mae wedi'i hysgrifennu ar gyfer arweinwyr y sector cyhoeddus ac unrhyw un sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn amcangyfrif bod yna o leiaf 935 o gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru. Cynghorau tref a chymuned yw'r rhan fwyaf o'r rhain (cyfanswm o 736). Mae hefyd yn cynnwys 22 o awdurdodau unedol, 30 o sefydliadau addysg a 7 bwrdd iechyd. Waeth sut mae'r sefyllfa yn newid dros amser, bydd egwyddorion a chamau gweithredu'r strategaeth hon yn parhau i fod yn berthnasol.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael effaith feunyddiol ar bob rhan o gymdeithas, o'r ieuengaf i'r hynaf, o unigolion i deuluoedd, o fusnesau lleol i sefydliadau rhyngwladol. Mae ein cwsmeriaid yn cynnwys dinasyddion, busnesau a diwydiant, y trydydd sector a'r gymuned ryngwladol. Bydd eu hanghenion yn wahanol gan ddibynnu ar y cymorth sydd ei angen arnynt, y



wybodaeth y maent ei heisiau, a natur y cwsmeriaid.

Yn aml, nid yw defnyddwyr gwasanaethau yn gwybod ai Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol neu Lywodraeth y DU sy'n darparu'r gwasanaeth. Mae'n bwysig bod pawb yn cydweithio i sicrhau bod y rhai sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus yn cael profiad cyson o ansawdd ac nad ydynt yn agored i'r heriau sy'n deillio o ddarparu'r gwasanaeth yn ddirwysr ledled sefydliadau lluosog, asiantaethau ac ardaloedd daearyddol.

## Canlyniadau

Yn y pen draw, bydd defnyddio technoleg yn llwyddiannus i weddnewid a gwella gwasanaethau cyhoeddus ar-lein yn dibynnu ar lawer o ffactorau, tueddiadau a phenderfyniadau. Nid yw Llywodraeth Cymru yn rheoli pob un o'r rhain. Serch hynny, mae Digidol yn Gyntaf yn awyddus i gael effaith sylweddol ar sawl canlyniad hirdymor, gan gynnwys:

- **Gwasanaethau ar-lein gwell**

Yn ôl gwaith ymchwil Ofcom, dim ond 9% o oedolion yng Nghymru sy'n dweud bod yn well ganddynt ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein na gwasanaethau traddodiadol. Rydym am weld cynnydd mawr yn y niferoedd o ganlyniad i fwy o bobl yn dymuno defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael ar ffurf ddigidol. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid sicrhau bod gwasanaethau ar-lein yn llawer mwy grymus, syml a hwylus nag ydyn nhw ar hyn o bryd.

- **Mwy o wasanaethau ar-lein**

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn darparu mwy na 700 o wasanaethau trafodol. Mae llawer yn methu cynnig dewis ar-lein. Mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hyn drwy sicrhau ein bod yn blaenoriaethu'r gwasanaethau cywir i'w

darparu ar-lein - h.y. gwasanaethau sydd eu hangen ar gwsmeriaid ac sy'n gallu cael eu darparu yn fwy effeithlon ar-lein.

- **Mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein**

Mae adroddiad Rhwydwaith Cyngori Cymru Ddigidol ar wasanaethau cyhoeddus ar-lein yng Nghymru wedi dangos bod lefelau defnyddio llawer o wasanaethau ar-lein yn isel iawn ar hyn o bryd, ac y gall defnydd cyffredinol yng Nghymru fod cyn ised â 18%. Er mwyn ysgogi galw ac elw o fuddsoddi, mae'n rhaid i ni gynyddu'r lefelau hyn yn sylweddol.

- **Gwella cefnogaeth i'r rhai sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol**

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14, mae tua 21% o bobl yn defnyddio'r rhyngwrwyd yn anaml iawn, neu ddim o gwbl. Yn aml, y bobl hyn yw'r rhai mwyaf agored i niwed ac maent yn dibynnu yn fwy na neb arall ar wasanaethau cyhoeddus. Wrth i fwy o wasanaethau cyhoeddus gael eu darparu ar-lein, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y cymorth sydd ei angen ar bobl i ddefnyddio gwasanaethau ar gael, yn cael ei gydgyssylltu ledled y sector cyhoeddus ac yn cael ei ddarparu yn effeithiol. Nid yw'r strategaeth hon yn ceisio gosod darpariaeth ddigidol yn erbyn darpariaeth draddodiadol; mae'n ceisio cydnabod yr angen am ddarparu gwasanaethau mewn ffordd berthnasol, ddiogel a hygyrch. Mae hynny'n cynnwys cyfuniad o wasanaethau digidol a gwasanaethau traddodiadol, wedi'u diffinio gan ddewisiadau ac anghenion defnyddwyr ac yn seiliedig arnynt.

- **Datgloi arbedion**

Ym mis Gorffennaf 2012, aeth y Gymdeithas Rheoli TG ati i baratoi ffigurau ar gyfer Gwasanaethau Digidol Llywodraeth Swyddfa'r Cabinet, gan amcangyfrif y gallai hyd at £334 miliwn o

gostau llywodraeth leol ledled y DU gael eu dileu am byth drwy newid cyswllt cyntaf cwsmeriaid o ddulliau ffôn ac wyneb yn wyneb i ddulliau digidol. Mae'n anodd dadlau yn erbyn arbedion o'r fath; fodd bynnag, mae'n rhaid parhau i ganolbwyntio ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ac anghenion defnyddwyr. Gall ceisio sicrhau arbedion yn unig niweidio ansawdd y gwasanaeth a thanseilio ymddiriedaeth y defnyddwyr.

Mae modd gwneud arbedion drwy ailgynllunio gwasanaethau cyfan i'w darparu ar ffurf ddigidol. Bydd hyn yn sicrhau bod gwaith prosesu, cofnodi ac ymdrin ag ymholiadau cwsmeriaid yn gallu cael ei gwblhau o'r dechrau i'r diwedd, heb fod angen ymyrraeth werth uchel gan bobl oni bai bod gwir angen, neu pan fo defnyddwyr y gwasanaeth yn nodi bod hynny'n ychwanegu gwerth at eu profiad.

## Gwireddu'r weledigaeth

Er ein bod yn cydnabod manteision darparu gwasanaethau cyhoeddus ar ffurf ddigidol i ddinasyddion a sefydliadau, mae'n bwysig ystyried anghenion y rhai a allai ei chael yn anodd defnyddio gwasanaethau digidol ochr yn ochr â'n hymdrechion i weddnewid ac esblygu ein gwasanaethau. Mae'n rhaid i bob un o'r gwasanaethau sy'n addas i gael eu gweddnewid yn ddigidol gynnwys atebion digidol wedi'u cynorthwyo er mwyn cefnogi defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus digidol (yn ddinasyddion neu'n fusnesau) a fyddai'n ei chael yn anodd eu cyrchu fel arall.

Ochr yn ochr â digidol a gynorthwyr, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynhwysiant digidol. Byddwn yn cefnogi'r defnydd o wasanaethau cyhoeddus digidol drwy helpu pobl i oresgyn y rhwystrau cymhellant, sgiliau,

fforddiadwyedd a hygyrchedd sy'n atal pobl rhag defnyddio gwasanaethau ar-lein. Bydd y rhaglen sy'n olynu Cymunedau 2.0 yn parhau i ddatblygu cysylltiadau agos â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus er mwyn trosglwyddo profiad ac arbenigedd sy'n seiliedig ar y dulliau gorau o ymgysylltu â phobl sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol. O ganlyniad, mae mwy o unigolion yn debygol o ddefnyddio'r gwasanaethau ar-lein a ddatblygir gennym.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio i ddarparu gwasanaethau digidol mewn ffordd gyson fel rhan o'r agenda Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg wedi cydsefydlu gweithgor Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, a fydd yn llywio darpariaeth a chydgyssylltu strategol gwasanaethau cyhoeddus digidol ar draws portffolios Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein bod yn sefydlu Cronfa Arloesi Digidol, gwerth £250,000 yn 2015-16, i ariannu gwelliannau digidol penodol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Rhagwelir y bydd y Gronfa yn cefnogi'r gwaith gweddnewid ehangach sy'n cael ei gynllunio ar gyfer llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach. Fel rhan o hynny, bydd yn gyfle i ysgogi a galluogi syniadau a mentrau arloesol sy'n cefnogi amcanion y gweithgor Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol.

## Dangos gwerth

Mae nifer o brosiectau yn cael eu datblygu sy'n ymgorffori'r dull o weddnewid gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael ei ffafrio gennym. Byddwn yn ceisio defnyddio prosiectau o'r fath fel enghreifftiau.

Er enghraifft, mae EID Cymru yn system cofnodi symudiadau defaid electronig ar gyfer ffermwyr, marchnadoedd da byw a lladd-dai. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud buddsoddiad sylweddol yn y system hon er mwyn gwneud y dasg o gofnodi symudiadau defaid yn haws. Bydd yn weithredol o fis Tachwedd 2015 ymlaen. Bydd EID Cymru yn gyfle i ffermwyr a phrosesyddion ddefnyddio'r gallu cynyddol i olrhain er mwyn ceisio gwella eu proffidioldeb ac er budd y diwydiant yn gyffredinol. Bydd EID Cymru yn cynnwys cymorth i'r rhai na allant ddefnyddio'r system electronig.

Bydd modd defnyddio'r data sy'n cael ei gasglu a'i greu o brosiect fel hwn at ddibenion sydd y tu hwnt i gwmpas y prosiect ei hun. Byddwn yn ceisio archwilio sut y gellir defnyddio, rhannu, mapio ac aildefnyddio'r data hwn at ddibenion arloesi, gwella ac ychwanegu gwerth.

## **Ar ba feysydd y byddwn yn canolbwyntio?**

Bydd angen newid diwylliannol a sefydliadol sylweddol er mwyn gwednewid ein hagwedd tuag at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol i ddiwallu anghenion ein dinasyddion. Mae'r ffaith hon yn cael ei chydabod yn y gwaith sy'n mynd rhagddo ledled y DU a thu hwnt. Er mwyn gwneud cynnydd, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar chwe maes.

### **1. Arweiniad, llywodraethu a gallu**

Mae sefydliadau sydd wedi arwain y gwaith o weddnewid gwasanaethau digidol wedi nodi pwysigrwydd arweiniad a llywodraethu cryf yn gyson. Felly, mae'n bwysig bod Cymru yn sicrhau bod arweiniad digidol medrus sydd wedi'i rymuso ar waith ar lefel genedlaethol a lleol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn penodi Prif Swyddog Digidol er mwyn hyrwyddo a goruchwyllo'r gwaith o weddnewid gwasanaeth digidol y Llywodraeth a helpu i lywio'r broses weddnewid ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Bydd y swydd yn cefnogi'r Gweithgor Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg. Bydd hefyd yn ganolbwynt i Lywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu â'r sector preifat, y sector academaidd a'r trydydd sector er mwyn helpu'r sector cyhoeddus i wireddu ei weledigaeth ddigidol o ddarparu gwasanaethau gwell, cydgysylltiedig, mwy hygyrch ac effeithlon.

Er bod arweiniad i weddnewid gwasanaethau digidol yn bwysig, mae'n rhaid i ni sicrhau hefyd bod y sgiliau a'r galluoedd cywir ar gael ledled y gwasanaeth sifil a'r sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn manteisio'n wirioneddol ar botensial technoleg i weddnewid gwasanaethau.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid fel cyflogwyr, undebau a darparwyr dysgu i ddatblygu fframwaith dysgu gweithlu digidol cenedlaethol a fydd yn datblygu ymdrechion cyson i rannu adnoddau, ac yn cynnwys canllawiau ac amcanion clir, mesurau i hyrwyddo a rhannu cynnwys ac adnoddau da ac, yn bwysicach, yn annog sefydliadau i roi blaenoriaeth i sgiliau digidol mewn rhaglenni hyfforddi lleol.

### **2. Gwasanaethau wedi'u cynllunio ar gyfer defnyddwyr**

Os ydym am i fwy o bobl ddefnyddio ein gwasanaethau digidol, mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein gwasanaethau digidol yn apelio mwy at ddefnyddwyr, ei bod yn haws eu defnyddio o bosibl neu eu bod yn fwy cyfleus na mathau eraill o

ddarpariaeth. Mae hyn yn golygu dewis y gwasanaethau cywir a'u cynllunio ar sail anghenion cwsmeriaid.

Mae'n rhaid i ni gydnabod hefyd nad yw rhai pobl yn gallu neu'n dymuno defnyddio gwasanaethau digidol. Mae'n rhaid i ni barhau i ymrwymo i ddigidol yn bennaf ond sicrhau ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n darparu cymorth i'r rhai sydd ei angen a thrwy ddatblygu gwasanaeth digidol o safon uchel iawn sy'n cael ei ddewis gan gwsmeriaid.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddatblygu cynllun digidol a gynorthwyr o ansawdd uchel ledled y sector cyhoeddus. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu dull gweithredu cyson wrth ddarparu gwasanaethau i bobl nad ydynt wedi bod ar-lein yn aml, os o gwbl, ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd hefyd yn sicrhau bod gan bob gwasanaeth sydd wedi'i flaenoriaethu ar gyfer gweddnewid digidol gynllun cyfatebol i sicrhau bod y gwasanaeth digidol amgen a gynorthwyr yn gadarn ac yn briodol.

Byddwn yn datblygu safon cynllun gwasanaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar anghenion ac adborth cwsmeriaid, gyda'r nod o weithio'n dda ar amrywiaeth o ddyfeisiau y gellir eu gweithredu ar y we, gan gynnwys ffonau symudol.

### 3. Gwerth am Arian

Mantais glir i ddarparwyr gwasanaethau wrth newid i ddarpariaeth ddigidol yw'r gallu i wneud arbedion a sicrhau gwerth am arian. Fel y nodwyd yn gynharach, ni ellir ystyried y ffactor hwn fel yr unig gymhelliant. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod modd gwneud arbedion effeithlonrwydd y gellir eu hail-fuddsoddi wedyn mewn gwasanaethau ychwanegol.

Byddwn yn annog pob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus i ystyried ei ddarpariaeth gwasanaethau presennol ac arfaethedig er mwyn penderfynu pa wasanaethau y dylid eu darparu ar-lein. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor ac arweiniad er mwyn cyflwyno cysondeb a'r gallu i ryngweithredu ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Amcangyfrifir bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario tua £400 miliwn y flwyddyn ar TGCh. Mae Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru wrthi'n datblygu cynllun i gaffael TGCh yn fwy effeithiol, er enghraifft drwy "ei brynu unwaith" ar gyfer y sector cyhoeddus a thrwy fanteisio ar gyfrifiadura cwmwl. Mae hefyd yn helpu i ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd i fusnesau Cymru elwa ar wariant y sector cyhoeddus.

Gall y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol helpu i sicrhau arbedion sylweddol mewn sawl agwedd ar wariant y sector cyhoeddus ar TGCh, gan gynnwys canolfannau data, mapio, wi-fi a gwefannau.

### 4. Rhannu a Chydweithio

Gall rhannu gwasanaethau ym meysydd cyllid, AD a phrosesau cefn swyddfa eraill arwain at arbedion sylweddol. Mae hyn yn wir hefyd am wasanaethau cyhoeddus ar-lein, a all ac a ddylai gael eu darparu ymhob sefydliad yn gyson. Ar adeg o bwysau mawr ar gyllidebau, mae'n gwneud synnwyr i rannu atebion ac agweddau at gynnwys a defnyddiau, yn ogystal â dulliau darparu.

Dylai'r broses o safoni (a rhannu) dulliau darparu gwasanaethau gychwyn drwy safoni'r gwasanaeth ei hun. Mae hwn yn un o argymhellion allweddol adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 2012 ar 'Defnyddio technoleg i gyflawni gwelliannau ac effeithiolrwydd mewn llywodraeth leol'.

Mae atebion technegol sy'n cael eu datblygu yn agored a'u cyhoeddi'n agored i'w hailddefnyddio yn hollbwysig. Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru eisoes yn awyddus i weithio fel hyn, ac er mwyn datblygu'r broses ymhellach byddwn yn datblygu fframwaith safonau cyffredin ac agored fel cam sylfaenol tuag at weddnewid gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Bydd y fframwaith yn cynnwys:

- safonau: nodi set o safonau ar gyfer Cymru gan gynnwys cynllun, pensaernïaeth, data a gallu i ryngweithio mewn ffordd hyblyg ac ymatebol
- caffael: sut mae atebion agored yn cael eu hasesu mewn penderfyniadau prynu?
- gweithredu: sut gall atebion agored gael eu gweithredu'n ddiogel ar rwydweithiau diogel?
- rhannu: ystorfa o atebion agored Cymru, sy'n barod i'w hailddefnyddio.

## 5. Defnyddio data

Nid yw'r sector gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud y defnydd gorau o'r swm enfawr o ddata sy'n cael ei greu ganddo. Mae ganddo ddyletswydd i ddefnyddio data i gefnogi atebolrwydd am berfformiad, cadw data personol yn ddiogel a rhannu'r data hwn yn ddiogel rhwng asiantaethau lle bo hynny'n briodol i gefnogi pobl sy'n agored i niwed, gwella gwasanaethau a sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, galluogi eraill i ddefnyddio'r data mewn dulliau arloesol a chreu twf economaidd.

Mae amcangyfrifon o'r manteision posibl i economi'r DU sy'n gysylltiedig â gweithgareddau data agored yn amrywio rhwng £1.8 biliwn a £25 biliwn. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar droi'r pentwr cynyddol o ddata sy'n deillio o weithgareddau cymdeithas yn ased defnyddiol i gynyddu cynhyrchiant,

gwella effeithlonrwydd a chynyddu proffidioldeb.

Mae trosiad syml ar sail GYC Cymru yn awgrymu manteision blynyddol posibl i Gymru gwerth tua £63 miliwn i £875 miliwn, gyda 2,000 o swyddi newydd yn cael eu creu erbyn 2017.

Mae *We Predict Ltd*, BBaCh o Abertawe, yn defnyddio asedau gwybodaeth sector cyhoeddus (gan gynnwys Data Agored) i wella a datblygu systemau er mwyn cynorthwyo asiantaethau gorfodi'r gyfraith i atal troseddau, gan gynnwys troseddau busnes.

Mae'r cwmni hwn hefyd yn defnyddio'r un galluoedd technegol i weithio gyda setiau data GIG Cymru er mwyn datblygu adnoddau a dulliau cynorthwyo i gynllunio a gwerthuso gwasanaethau iechyd, a hyrwyddo'r broses o wella gwasanaethau.

Erbyn hyn, mae angen creu un Fframwaith Data Agored cydlynus ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Bydd hyn yn ategu gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ac yn gosod rheolau a disgwyliadau cyffredin ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd hefyd yn darparu eglurder ar natur ac ehangder ein hasedau gwybodaeth, sut rydym yn sicrhau eu bod ar gael a'r cyfleoedd i ychwanegu gwerth economaidd at sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru a'r rhai sy'n gallu manteisio ar ein gwybodaeth.

## 6. Cyfathrebu a hyrwyddo

Rydym am i bawb sy'n gallu defnyddio ein gwasanaethau digidol wneud hynny. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod tua 86% o ddefnyddwyr y rhynggrwyd yng Nghymru yn mynd ar-lein i brynu nwyddau, ond nad yw'r bobl hyn yn awyddus i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein.

Mae angen i ni sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael ar-lein a'r manteision sy'n deillio o'u defnyddio. Er enghraifft, drwy newid geiriau'r wybodaeth am sut i dalu ar docynnau parcio er mwyn hyrwyddo taliadau ar-lein, llwyddodd Cyngor Dinas Casnewydd i gynyddu taliadau ar-lein o 10% i 60% dros nos.

Fodd bynnag, ychydig iawn o weithgarwch hyrwyddo sy'n mynd rhagddo ar draws ffiniau sefydliadol neu ddaeryddol. Byddwn felly yn nodi cyfleoedd i gydgyssylltu ymgyrchoedd marchnata, hyrwyddo ar lefel genedlaethol a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn well.

Ar gyfer llawer o drafodion ar-lein, mae angen i ddefnyddwyr brofi pwy ydyn nhw. Gall y prosesau hyn fod yn feichus ac yn fiwrocraidd, gan rwystro pobl rhag defnyddio gwasanaethau ar-lein. Ar yr un pryd, mae llawer o bobl yn pryderu'n fawr am ddwyn hunaniaeth ac mae'n well ganddynt ddefnyddio dulliau traddodiadol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Llywodraeth y DU yn datblygu dull gweithredu cenedlaethol newydd o brofi hunaniaeth ar-lein. Bydd yn symleiddio'r broses o brofi hunaniaeth ac yn lleihau biwrocraatiaeth ddiangen drwy ailddefnyddio dulliau profi hunaniaeth sydd eisoes yn bodoli. Bydd hefyd yn cydymffurfio â safonau rhyngwladol yn ymwneud â diogelwch ar-lein ac yn sicrhau cwsmeriaid bod eu data personol a gwasanaethau yn ddiogel a bod eu preifatrwydd yn cael ei ddiogelu.

Mae'r newid i un wefan Llywodraeth y DU (gov.uk) yn sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer gwasanaethau digidol, ac mae wedi arwain at resymoli nifer gwefannau'r llywodraeth – gan leihau costau yn sylweddol. Mae tua 10 miliwn

o gwsmeriaid yr wythnos yn defnyddio'r plattform gov.uk.

Mae llwyddiant gov.uk yn rheswm da pam y dylai Cymru ystyried manteision creu un plattform cyhoeddi ei hun. Byddwn yn mynd ati, felly, i archwilio holl bwyntiau mynediad cwsmeriaid digidol y sector cyhoeddus a chynnal astudiaeth ddichonoldeb i ystyried costau a manteision un plattform cyhoeddi ar gyfer gwasanaethau'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan ddefnyddio system gwmwl o bosibl. Byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ar enwau'r parthau .cymru a .wales newydd.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod modd i holl wasanaethau Cymru ddefnyddio'r system newydd cyn gynted ag y bo modd.

Drwy'r camau gweithredu hyn, rydym am i Gymru fod y rhan gyntaf o'r DU i ddefnyddio un dull gweithredu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, sy'n croesi ffiniau sefydliadol a daeryddol. Mae'n bosibl y bydd gwasanaeth yn cynnwys sawl sefydliad yn cydweithio ar elfennau amrywiol. Mae pobl yn symud yn gyson, ac maent yn disgwyl gallu dod o hyd i wasanaethau o ardaloedd gwahanol o'r wlad. Rydym yn awyddus i ddefnyddio technolegau digidol i helpu i gyflwyno un dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion ym maes gwasanaethau ar-lein lleol. Mae'n rhaid canolbwyntio ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, yn hytrach na'r technolegau neu'r sefydliadau sy'n sylfaen i'r gwasanaeth. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ymateb i anghenion y dinesydd a darparu ar gyfer holl ddefnyddwyr y gwasanaeth, pryd bynnag, ble bynnag a sut bynnag maent yn dewis defnyddio'r gwasanaeth.